



Amodau Gorchwyl

Diben a Nod

1. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) yn fwrdd statudol a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r BGC yn gyfrifol am wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir. Bydd y BGC yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad i gyrraedd saith nod llesiant cenedlaethol trwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. Wrth fynd ar drywydd y diben hwn, bydd y Bwrdd yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol:
 - Cymru lewyrchus;
 - Cymru gydnerth;
 - Cymru iachach;
 - Cymru sy'n fwy cyfartal;
 - Cymru o gymunedau cydlynus;
 - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
 - Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.
2. Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor gweithgareddau'r BGC. Mae hyn yn golygu gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
3. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r BGC fabwysiadu'r pum ffordd ganlynol o weithio i oleuo penderfyniadau a'r broses o gyflawni'r amcanion:
 - **Hirdymor** – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion byrdymor a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion mwy hirdymor.
 - **Atal** – Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
 - **Integreiddio** – Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
 - **Cydweithio** – Cydweithio gydag unrhyw berson arall a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.
 - **Cynnwys** – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â buddiant mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Rôl a Chyfrifoldebau

4. Mae gan y Bwrdd bedair prif swyddogaeth statudol:
 - a. Paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn Sir Gaerfyrddin.
 - b. Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer y sir sy'n nodi amcanion lleol a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.
 - c. Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennwyd ganddo.
 - d. Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi cynnydd y Bwrdd tuag at gyflawni'r amcanion lleol.

Aelodaeth

Aelodau Statudol

5. Y pedwar aelod statudol yw:
 - Cyngor Sir Gaerfyrddin (Yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr);
 - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (naill ai'r Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr neu'r ddau);
 - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (naill ai'r Cadeirydd, neu'r Prif Weithredwr neu'r ddau); a hefyd
 - Cyfoeth Naturiol Cymru (Y Prif Weithredwr).
6. Gellir penodi cynrychiolydd enwebedig i gynrychioli unrhyw un o'r rhai a enwir uchod. Dylai unrhyw gynrychiolwyr penodedig feddu ar yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar ran eu sefydliad. Gofynnir i aelodau statudol hysbysu Tîm Cefnogi'r BGC os yw cynrychiolydd penodedig a enwyd yn debygol o fod yn bresennol yn eu lle pryd bynnag y byddant yn methu â dod i gyfarfod.
7. Dim ond aelod arall o Fwrdd Gweithredol y Cyngor y gall Arweinydd y Cyngor Sir ei benodi i'w gynrychioli mewn cyfarfod.

Cyfranogwyr a Wahoddir

8. Gwahoddir y gwahoddedigion canlynol i gyfranogi yng ngweithgarwch y BGC:
 - Gweinidogion Cymru;
 - Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys;
 - Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys;
 - Cyfarwyddwr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin;
 - Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda;
 - Cynrychiolaeth Ranbarthol ar ran Canolfannau Gwaith, Yr Adran Gwaith a Phensiynau;
 - Pennaeth, Coleg Sir Gâr;
 - Uwch Gynrychiolydd o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant;
 - Cynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol;
 - Cynrychiolaeth o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; a hefyd
 - Cynrychiolaeth Ranbarthol o Gyngor Celfyddydau Cymru.
9. Unwaith y maent wedi cael eu gwahodd, mae Cyfranogwyr a Wahoddir yn aelodau llawn o'r Bwrdd a'i holl weithgareddau. Gofynnir i Gyfranogwyr a Wahoddir ymuno â'r Bwrdd

trwy lythyr gan y Cadeirydd sy'n nodi'r rhesymau dros y gwahoddiad a'r disgwyliadau ar gyfer y cyfranogwr a wahoddir.

Partneriaid Eraill

10. Bydd y Bwrdd hefyd yn ymgysylltu â phartneriaid allweddol eraill yn yr ardal sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, sydd â buddiant perthnasol yn llesiant yr ardal ac sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig ac yn ceisio cyngor ganddynt mewn perthynas â pharatoi, gweithredu a chyflawni gwaith y bwrdd. Mae'r partneriaid yn cynnwys y canlynol, ond nid y canlynol yn unig:

- Cyngorau Tref a Chymuned;
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Y Cyngor Iechyd Cymuned;
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
- Cyngor Chwaraeon Cymru;
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- Amgueddfa Cymru;
- Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; a
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

11. Bydd y BGC yn cynnal o leiaf un cyfarfod ffurfiol gyda'r partneriaid hyn yn flynyddol.

Darparu Gwybodaeth

12. Gall y Bwrdd ei gwneud yn ofynnol i'r aelodau ddarparu gwybodaeth am unrhyw gam gweithredu y maent yn ei gymryd a allai gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant. Fodd bynnag, nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth yn yr achosion canlynol:

- (a) os ydynt o'r farn y byddai'n anghydnaws â'u dyletswyddau; neu
- (b) pe bai'n cael effaith anffafriol ar arfer eu swyddogaethau; neu
- (c) os yw'r gyfraith yn eu gwahardd rhag ei darparu.

13. Os yw rhywun yn penderfynu peidio â darparu gwybodaeth y mae'r Bwrdd wedi gofyn amdani mae'n rhaid iddo roi rhesymau ysgrifenedig i'r Bwrdd dros ei benderfyniad.

Trefniadau Cadeirio ac Amllder Cyfarfodydd

Cyfarfodydd Gorfodol

14. Bydd y Bwrdd yn cynnal "cyfarfod gorfodol" a gaiff ei gadeirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn ddim hwyrach na 60 diwrnod ar ôl pob etholiad cyffredin dilynol i ethol cynghorwyr.

15. Yn y cyfarfod hwn mae'n rhaid i'r Bwrdd:

- a) Benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd;
- b) Penderfynu pryd a pha mor aml y mae'n cwrdd; ac
- c) Adolygu ei Amodau Gorchwyl a chytuno arnynt.

Cyfarfodydd Cyffredin

16. Bydd cyfarfodydd cyffredin y Bwrdd yn cael eu cynnal, fel isafswm, bob dau fis calendr, ar amser ac mewn lleoliad a gytunwyd gan yr aelodau.

17. Bydd pob cyfarfod yn ystyried yr eitemau canlynol ar yr agenda ond nid y rhain yn unig:
- Croeso ac ymddiheuriadau;
 - Datganiadau o fuddiant;
 - Cwestiynau gan y cyhoedd;
 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf;
 - Cynnydd o ran yr amcanion llesiant;
 - Blaenraglen waith.
18. Bydd dewis iaith aelodau'r BGC ac unrhyw rai eraill sy'n bresennol yn cael ei gadarnhau a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu fel y bo'n briodol.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

19. Bydd yr aelodau'n atebol i'w priod aelod-sefydliadau ac yn cadw cyfrifoldeb statudol am eu swyddogaethau. Bydd trefniadau llywodraethu'n cael eu cytuno rhwng yr aelodau i roi sylw i fater atebolrwydd cyhoeddus ac uniondeb yn ogystal â bodloni Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol Sefydlog.
20. Nid yw'r BGC a'i grwpiau cyfansoddol yn gorff a gyfansoddwyd ar wahân ac felly mae'n rhaid i'w strategaethau a chynlluniau gael eu cymeradwyo gan bob rhiant-gorff.

Gwneud Penderfyniadau

21. Mae aelodau statudol yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni dyletswyddau statudol y bwrdd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r holl aelodau statudol fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y BGC er mwyn i benderfyniad a wnaed yn ystod y cyfarfod hwnnw gael ei ystyried yn un dilys.
22. Mae penderfyniadau'r bwrdd (er enghraifft cytuno ar yr asesiad llesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol) yn ddilys dim ond pan fyddant yn cael eu gwneud ar y cyd ac yn ddienw gan yr holl aelodau a chyda'r holl aelodau statudol yn bresennol.
23. Os ceir anghytundeb rhwng aelodau, cyfrifoldeb y Cadeirydd yw cyfryngu cytundeb a sicrhau bod hwn yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod Bwrdd nesaf sydd ar gael neu i gyfarfod arbennig os oes angen.

Cworwm

24. Y cworwm yng nghyfarfodydd y BGC yw cynrychiolydd ar ran pob un o'i bedwar aelod statudol.

Adroddiad Blynyddol

25. Bydd y Bwrdd yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad yn ddim hwyrach nag 14 mis ar ôl cyhoeddi ei gynllun llesiant lleol cyntaf. Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i adrodd ar weithgarwch am y flwyddyn lawn. Wedyn, bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi'n ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl cyhoeddi pob adroddiad blaenorol.
26. Yn y flwyddyn yn dilyn pob etholiad llywodraeth leol cyffredin, pan fo Cynllun Llesiant Lleol newydd yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi, nid oes gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol hefyd.

27. Bydd yr Adroddiad Blyneddol yn nodi'r camau a gymerwyd ers cyhoeddi cynllun llesiant lleol diweddaraf y Bwrdd i gyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun. Gall hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r Bwrdd yn meddwl y byddai'n briodol.
28. Bydd copi o'r Adroddiad Blyneddol yn cael ei anfon at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r pwyllgor craffu perthnasol.

Craffu

29. Diben y rôl graffu yw rhoi her a chefnogaeth er mwyn sicrhau gwelliant parhaus i'r Bwrdd. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae'n ofynnol bod un o bwyllgorau craffu llywodraeth leol yr awdurdod lleol perthnasol yn cael ei benodi i graffu ar waith y BGC.
30. Mae gan y pwyllgor craffu'r pŵer i wneud y canlynol:
- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus;
 - Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r bwrdd;
 - Cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu;
 - Ystyried materion sy'n ymwneud â'r bwrdd a atgyfeiriwyd ato gan Weinidogion Cymru ac adrodd yn ôl wrth Weinidogion Cymru ar hynny; a hefyd
 - Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r bwrdd a osodir arno gan y Ddeddf.
31. Cyfrifoldeb Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau'r Cyngor yw craffu ar y Bwrdd. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i atgyfeirio cynllun at y pwyllgor craffu lleol os nad yw'n ystyried ei fod yn ddigonol; er enghraifft, oherwydd adroddiad anffafriol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru neu bryder nad yw dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.
32. Gall y pwyllgor craffu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Bwrdd roi tystiolaeth, ond dim ond mewn perthynas ag arfer swyddogaethau ar y cyd a roddwyd iddo fel aelod o'r Bwrdd. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Craffu anfon copi o unrhyw adroddiad neu argymhelliad y mae'n ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Strwythur y BGC

Grŵp Cyflawni Gweithredol (GCG)

33. Mae'r GCG yn gyfrifol am gynorthwyo'r BGC i weithredu ei Gynllun Integredig Sengl a pharatoi'r Cynllun Llesiant. Mae'r GCG yn gyfrifol am ddatblygu'r Asesiad Llesiant yn y sir, cyfrannu at lunio blaenoriaethau'r BGC, cydlynu'r broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant a datblygu a monitro fframwaith perfformiad yn ôl canlyniadau.

Grwpiau Thematig

34. Mae'r Bwrdd yn gallu sefydlu grwpiau thematig neu grwpiau gweithredu i'w gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau a gall y bwrdd awdurdodi grwpiau o'r fath i arfer nifer cyfyngedig o swyddogaethau.

35. Bydd gan bob grŵp thematig 'Hyrwyddwr y BGC' o blith aelodau statudol y Bwrdd a fydd yn adrodd yn uniongyrchol wrth y BGC ar gynnydd a wnaed. Gall yr Hyrwyddwr ddewis cynrychiolydd priodol i fynychu cyfarfodydd y grŵp thematig. Bydd nodau pob grŵp thematig neu grŵp gweithredu'n cael eu pennu gan y Bwrdd pan fydd y grŵp yn cael ei sefydlu. Bydd pob grŵp yn paratoi amodau gorchwyl a bydd cadeirydd y grŵp yn eu cyflwyno i'r Bwrdd i gael eu cymeradwyo.
36. Mae'r grwpiau thematig canlynol wedi'u sefydlu ar hyn o bryd:
- Teuluoedd a Chymunedau Iach;
 - Cymunedau Teg a Diogel; a hefyd
 - Cymunedau Llewyrchus a Chydnerth.
37. Bydd angen i grwpiau thematig gael cymeradwyaeth y BGC ar gyfer grwpiau gweithredu presennol ac arfaethedig.

Ymgysylltu Ehangach

38. Bydd y Bwrdd yn cymryd camau ychwanegol y tu allan i gyfarfodydd i sicrhau bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed ac yn helpu i lunio'r asesiad llesiant a'r Cynllun Llesiant. Mae ffocws y Bwrdd ar ddinasyddion yn golygu y bydd ganddo berthynas bwrpasol gyda phobl a chymunedau yn yr ardal, gan gynnwys plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a phobl â nodweddion gwarchoddedig, ym mhob agwedd ar ei waith. Disgwylir i hyn gynnwys ymarferion ymgynghori a chyfleoedd i bobl godi a thrafod syniadau trwy drefniadau ymgysylltu ar-lein ac all-lein. Bydd gweithgarwch yn digwydd yn unol â Chynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r BGC.
39. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau tref a chymuned i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion lleol yn y Cynllun Llesiant Lleol sydd mewn grym yn ei ardaloedd. Os yw'r ddyletswydd yn berthnasol i gyngor tref neu gymuned, mae'n rhaid iddo gyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n nodi ei gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion yn y Cynllun Llesiant Lleol. Bydd yr adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd er mwyn iddo'i ystyried wrth lunio'i adroddiad blynyddol ei hun.
40. Bydd y BGC yn cynnal cyswllt agos â chynghorau tref a chymuned o'r fath y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt wrth bennu'r amcanion yn y Cynllun Llesiant Lleol.
41. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cyflwyno cwestiynau a fydd yn cael eu trafod yn y BGC a bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.
42. Gall partïon â buddiant gael eu gwahodd i roi cyflwyniadau i'r Bwrdd ar unrhyw eitemau sy'n cael eu hystyried. Fodd bynnag, bydd y Bwrdd yn cymryd gofal i sicrhau uniondeb a didueddrwydd prosesau'r Bwrdd ac i fod yn effro i risgiau posibl o ganfyddiad bod grŵp penodol yn cael gormod o fynediad at drafodaethau'r Bwrdd neu ddylanwad arnynt.
43. Bydd agendâu a chamau gweithredu o gyfarfodydd y Bwrdd ar gael ar wefan y Bwrdd.

44. Bydd copêau o'r asesiad anghenion llesiant, y Cynllun Llesiant a phob adroddiad blynyddol yn cael eu hanfon at Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgor craffu'r Cyngor a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan y BGC.

Cymorth

45. Darperir cymorth gweinyddol ar gyfer y Bwrdd gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae hyn yn cynnwys:

- Sicrhau bod y BGC yn cael ei sefydlu ac yn cwrdd yn rheolaidd;
- Paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd;
- Paratoi a chydlynu blaenraglen waith ar gyfer gwaith y Bwrdd;
- Gwahodd cyfranogwyr a rheoli presenoldeb;
- Gweithio ar yr adroddiad blynyddol; a hefyd
- Paratoi tystiolaeth ar gyfer y broses graffu.

Adolygu a Diwygio

46. Mae'n rhaid i'r Bwrdd adolygu'r Amodau Gorchwyl hyn yn y cyfarfod gorfodol, ond gall eu hadolygu a chytuno i'w diwygio unrhyw bryd cyn belled â bod yr holl aelodau statudol yn cytuno.